# Hysbysiad Preifatrwydd y Garfan Hyfforddi a Datblygu Dechrau'n Deg

**Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion Hyfforddiant Dechrau'n Deg**

Mae'r Garfan Hyfforddi a Datblygu Dechrau'n Deg (FSTDT) yn darparu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer ymarferwyr gofal plant Dechrau'n Deg sy'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr sy'n gweithio o fewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg, ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliad gofal plant cymeradwy a gwarchodwyr sy'n darparu gofal i blant Dechrau'n Deg. Mae hyn yn ein galluogi ni i hyrwyddo darpariaeth gofal plant o safon uchel i blant Dechrau'n Deg a darpariaeth Dechrau'n Deg. Mae cynnal y gwaith yma yn golygu bod rhaid i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth am y bobl rydyn ni'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer nhw a chadw cofnod o'r gwasanaethau yma. Rydyn ni hefyd yn casglu gwybodaeth gan y bobl sy'n darparu'r gwasanaeth. O ganlyniad i gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol am unigolion, mae rhaid i ni sicrhau eu bod nhw'n gwybod beth yw ein bwriad o ran defnyddio a rhannu eu gwybodaeth.

Yn yr hysbysiad preifatrwydd yma, rydyn ni wedi crynhoi rhai o'r ffyrdd allweddol rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion hyfforddiant.

**1. Pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud.**

Mae Carfan Hyfforddi a Datblygu yn darparu cyfleoedd hyfforddiant i ymarferwyr fel bod modd iddyn nhw feithrin y sgiliau angenrheidiol a'r wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghytundeb Lefel Gwasanaeth Dechrau'n Deg. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n parhau i ddarparu staff cymwysedig ac sydd wedi derbyn hyfforddiant o safon uchel er mwyn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg yn RhCT.

**2. Pa fath o wybodaeth bersonol ydyn ni'n ei chadw ac am bwy?**

Rydyn ni'n cadw gwybodaeth am ymarferwyr Dechrau'n Deg sy'n gweithio gyda ni ar hyn o bryd ac sydd wedi/sydd yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn darpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg. Rydyn ni hefyd yn cadw gwybodaeth am ymarferwyr sydd heb fod yn rhan o raglen Dechrau'n Deg ond sy'n gweithio/wedi gweithio o fewn y ddarpariaeth honno. Bydd y mathau o wybodaeth rydyn ni'n eu cadw a'u prosesu fel arfer yn cynnwys:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys rhif ffôn symudol breifat a chyfeiriad e-

bost sy'n ein galluogi ni i gysylltu â ni os caiff cwrs ei ganslo'n fyr rybudd.

- Manylion cyflogaeth, gan gynnwys swyddfa, nifer yr oriau rydych chi wedi'u gweithio a theitl eich swydd.
- Manylion datblygu proffesiynol, gan gynnwys cymhwyster/cymwysterau sydd gyda chi neu rydych chi'n gweithio tuag atyn nhw a chyrsiau hyfforddi rydych chi wedi'u cyflawni neu wedi cadw lle ar eu cyfer.
- Manylion personol, gan gynnwys rhif Yswiriant Gwladol, sgiliau iaith Cymraeg a dewis iaith.

**3. O ble mae'r gwasanaeth yn cael fy ngwybodaeth?**

- Caiff yr wybodaeth yma ei darparu'n uniongyrchol gennych **chi** sef Gwrthrych y Data, e.e. wrth wneud eich cais i ddefnyddio'r system hyfforddi neu wneud cais am gwrs, cwblhau'r archwiliad hyfforddiant staff neu gyfathrebu newidiadau o ran ymarferwyr.
- Caiff yr wybodaeth ei chasglu at ddibenion darpariaeth Dechrau'n Deg.
- Gwybodaeth **wedi'i darparu gan y gwasanaeth.**
- Gwybodaeth gan **wasanaethau eraill y Cyngor**

**4. Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol?**

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol yma er mwyn cydlynu a darparu cyfleoedd hyfforddi i ymarferwyr Dechrau'n Deg. Hefyd byddwn ni'n monitro cymwysterau a sgiliau staff Dechrau'n Deg yn unol â gofyion.

**5. Beth ydy'r sail gyfreithiol o ran defnyddio'r wybodaeth yma?**

Caiff sail statudol Dechrau'n Deg ei hamlinellu yn Adran 14 y Ddeddf Addysg 2002. Mae ein sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn deillio o'r sail statudol yma.
Rhaid bod holl staff sy'n gweithio i gynllun Dechrau'n Deg dderbyn hyfforddiant gyda'i gilydd yng nghyd-destun Deddf Plant 2004, ac rydyn ni dan rwymedigaeth darpariaethau'r Ddeddf yma.

**6. Ydy'r gwasanaeth yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad arall?**

O bryd i'w gilydd, byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaethau fel y gallan nhw ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau, ein hawliau a'n disgresiwn mewn perthynas â Dechrau'n Deg. Gall y rhain gynnwys:

Adrannau eraill o'r Cyngor:

- Credydwyr – trefnu taliad trwy siec neu daliad uniongyrchol
- Uned Hyfforddi Heddfan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Sefydlu a chymeradwyo defnyddwyr newydd y system hyfforddiant.

Cyflenwyr a sefydliadau trydydd parti dibynadwy ac sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan:

- Darparwyr Meddalwedd - (sef SDMS Ltd ar hyn o bryd) er mwyn cynnal ein system.

## 7. Am faint o amser fydd y gwasanaeth yn cadw fy ngwybodaeth?

Byddwn ni dim ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol **cyhyd ag y bydd cynllun Dechrau'n Deg yn gweithredu** ac i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu gwynion y gallwn ni eu derbyn am hyn, oni bai fod y gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ei chadw am gyfnod hwy.

## 8. Eich gwybodaeth, eich hawliau

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn rhoi hawliau pwysig i chi, gan gynnwys yr hawl i gael gweld yr wybodaeth bersonol mae'r gwasanaethau yn ei chadw amdanoch chi.

Cael rhagor o wybodaeth am eich hawliau gwybodaeth a sut mae'u defnyddio nhw.

## 9. Cysylltwch â ni

Os oes gyda chi unrhyw bryderon neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio un o'r dulliau isod:

E-bost: HyfforddiantyBlynyddoeddCynnar@rctcbc.gov.uk

Dros y ffôn: 01443 744268

Trwy lythyr: Canolfan Hyfforddiant a Datblygu Dechrau'n Deg, Gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ

.